# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Templed Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **12 Mawrth 2018** |
| **Pwnc:** | **Moderneiddio Ysgolion Môn – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn ardal Llangefni – Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **I wneud argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn symud ymlaen efo'r rhaglen moderneiddio ysgolion er mwyn cwrdd ag anghenion am lefydd mewn ysgolion ble mae eu hangen nhw fwyaf, gwella safonau addysgu a chyrhaeddiad a darparu adnoddau modern mewn perthynas ag ysgolion ac adnoddau addysgu.** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Y Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Y Cynghorydd R. Meirion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Delyth Molyneux** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Delyth Molyneux** |
| **Aelodau lleol:** | **Y Cynghorydd Nicola Roberts**<br>**Y Cynghorydd Bob Parry**<br>**Y Cynghorydd Dylan Rees** |

**1 – Argymhelliad/ion**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell cymeradwyo'r canlynol i'r Pwyllgor Gwaith:

1. Defnyddio adeilad presennol Ysgol Y Graig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu
2. Cael bloc neu adeilad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
3. Cau Ysgol Talwrn ac adleoli'r disgyblion i Ysgol Y Graig ar ôl i'r adeilad newydd i'r Cyfnod Sylfaen agor ac ar ôl i'r adeilad presennol gael ei addasu
4. Ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn y ddarpariaeth newydd
5. Sicrhau fod y tyrbin gwynt ar y safle yn gweithio erbyn diwrnod agor yr adeilad newydd

Byddai'r adeilad newydd yn rhan o Ysgol Y Graig a ni fyddai'n endid ar wahân.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

**Amcan 1 o GYNLLUN 2017 - 2022** - CYNGOR SIR YNYS MÔN
**Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir**

**Byddwn yn parhau i godi safonau addysg a sicrhau bod gan ein pobl ifanc y sgiliau cywir ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant.**

1. Parhau â'n rhaglen moderneiddio ysgolion drwy gyhoeddi strategaeth ddiwygiedig fydd yn mynd i'r afael â chynaliadwyedd tymor hir addysg gynradd ac addysg uwchradd ar draws yr Ynys. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o gampysau dysgu 3 – 18 oed mewn lleoliadau penodol.
2. Cwblhau'r gwaith ar Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch ac ardaloedd Seiriol a Llangefni.

## 3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cymhorthi Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **Os gwireddir y cynllun arfaethedig hwn, aseswyd ei effaith posib ar y gymuned. Gweler hyn yn yr asesiad effaith.**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **Os gwireddir y cynllun arfaethedig hwn, bydd yn arwain at arbedion refeniw fel yr amlinellir yn yr adroddiad**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **Os gwireddir y cynllun arfaethedig hwn, bydd yn arwain at risgiau o ran diffyg cefnogaeth i'r prosiect, problemau posib o ran y safle a chostau. Mae matrics risg wedi ei baratoi ar gyfer y rhaglen moderneiddio.**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **Os gwireddir y cynllun arfaethedig hwn, mae'r Awdurdod yn hyderus iawn bydd yn arwain at well safonau addysgol. Bydd yn cwrdd â safonau adeiladu a BREEAM ac yn cydymffurfio â'r Bwletinau Adeiladu perthnasol.**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor – disgwylir i'r ysgol fod yn ran o'r gymuned am o leiaf 30 mlynedd. Mae'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn ceisio ymateb i anghenion heddiw, ond hefyd yn ystyried yn llawn yr angen i fodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol.
- Atal – Os cymeradwyir y cynnig, bydd yr achosion busnes sy'n dilyn yn rhoi sylw i fesurau ataliol, bydd hefyd bwyslais i weithio'n gorfforaethol ar fesurau ataliol.
- Integreiddio – os cymeradwyir bydd yr ysgol dan sylw yn ganolbwynt cydweithio ac yn integreiddio gwasanaethau'n effeithiol i sicrhau bod yr ysgol yn darparu adnodd i'r gymuned
- cydweithio – bydd yn hybu cydweithio yn ystod y prosiect ac ar ôl ei gwblhau.
- Cynnwys – Bydd y broses o ymgysylltu efo'n rhanddeiliaid yn parhau hyd oes y prosiect a phellach.

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Ydi'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol argymell cymeradwyo'r cynnig dan sylw?

| **5 – Cefndir / Cyd-destun** |
|---|
| Disgrifir y cefndir I'r cynllun posib yn yr adroddiad |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Cwblhawyd Asesiad Effaith ar gyfer y broses ymgynghori statudol. Cafodd effaith posib gwireddu'r cynnig ar yr iaith Gymraeg, cydraddoldeb a'r gymuned eu hasesu. |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Mae'r effaith posib ar sefyllfa gyllidol yr Awdurdod yn cael ei asesu yn yr adroddiad |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Ceir 9 atodiad I'r adroddiad |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| 1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Gorffennaf 17, 2017.<br>2. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Rhagfyr 19, 2016<br>3. Dogfen Ymgynghori Statudol<br>4. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Mehefin 20, 2016<br>5. Dogfen ymgynghori anstatudol, a'r adroddiad dilynol<br>6. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013.<br>7. Llythyr o Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014. |

**SWYDDOGOL – *OFFICIAL***

# ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL - ARDAL LLANGEFNI (Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn)
# *REPORT ON THE STATUTORY CONSULTATION – LLANGEFNI AREA (Ysgol Y Graig and Ysgol Talwrn*)

## 26 Medi – 13 Tachwedd 2017 / *26 September – 13 November 2017*




**CYNGOR SIR YNYS MÔN / *ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL***
**ADRAN DYSGU GYDOL OES / *LIFELONG LEARNING DEPARTMENT***

**www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk**

| Rhif | CYNNWYS | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1. | CYFLWYNIAD A CHEFNDIR | 3 |
| 2. | GYRWYR NEWID | 3 |
| 3. | Y BROSES YMGYNGHORI | 5 |
| 4. | SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI | 6 |
| 5. | YMATEBION O YSGOL TALWRN | 7 |
| 6. | YMATEBION O YSGOL Y GRAIG | 9 |
| 7. | YMATEBION ERAILL | 10 |
| 8. | ADBORTH GAN DDISGYBLION | 11 |
| 9. | YSTYRIAETHAU ARIANNOL | 15 |
| 10. | ARGYMHELLIAD | 16 |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae ar y Cyngor eisiau moderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- cyflwyno ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion sydd ohoni drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgol sydd ohoni neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

## 2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal:

*Codi safonau addysgol*

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i godi safonau'n sylweddol os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 100 (neu 105) o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd a mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddosbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

*Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl*

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828 ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 [£3,962 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

*Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib*

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeilad ysgol ddiweddaraf - Ysgol y Graig - a ddefnyddir fel meincnod] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd

gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, mannau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd a diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

*Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol*

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth ddirprwy bennaeth neu uwch dim rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

*Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol*

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd dros draean neu 36% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

*Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol*

Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

*Lleihau nifer llefydd gweigion*

Yn Ionawr 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 13.0% ac mae 1.9% o lefydd gweigion yn y 2 ysgol dan sylw, sydd dipyn llai na tharged Llywodraeth Cymru [15% ar lefel Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol]. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o

feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

*Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog*
Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Roedd cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda rhanddeiliaid dros y cyfnod hwn:

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y ddwy ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 26 Medi hyd at 13 Tachwedd 2017.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel a ganlyn:

| | | | Cyfarfod gyda | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Dyddiad (yn 2017)** | | **Staff** | **Llywodraethwyr** | **Rhieni** |
| **Y Graig** | **Dydd Llun** | **2 Hydref** | **3.30** | **5.00** | **6.30** |
| **Talwrn** | **Dydd Mercher** | **4 Hydref** | **3.45** | **5.15** | **6.15** |

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd yn Llangefni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- newid y sefyllfa o ran amser di gyswllt i athrawon ohono'i hun.
- gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw na
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanegol yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni dewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

## 4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir fwy o sylwadau yn rhan 5 o'r adroddiad hwn.

### Ysgol Y Graig

Pryder am faint yr adeilad newydd a chyfleusterau yno
Holwyd am amserlen posib y gwaith
Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu
Pryder am draffig a pharcio ger yr ysgol
Pryder am effaith posib staffio, swyddi a lleoliad yr adeilad newydd
Holwyd am effaith posib y gwaith ar Dechrau'n Deg

### Ysgol Talwrn

Pryderon am swyddi'r staff
Pryderon o ran pa lais fyddai llywodraethwyr Ysgol Talwrn yn cael yn Ysgol Y Graig ddiwygiedig
Holodd rai am ddatganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ar Addysg am ysgolion gwledig
Pryderon am gludiant i unrhyw ysgol gynradd arall petai Ysgol Talwrn yn cau.
Pryderon am effaith posib cau ysgol Talwrn ar neuadd y bentref a'r eisteddfod leol
Dymuniad rhai rhieni i Ysgol Talwrn gael ei huno gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth gan eu bod nhw yn "ysgolion gwledig"

Gweler Atodiad 1 am ddiffiniad Cyngor Sir Ynys Môn o Ysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain.

## 5. YMATEBION O YSGOL TALWRN

5.1 Derbyniwyd 108 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol. Roedd pob un ohonynt yn anghytuno gyda'r cynnig i gau Ysgol Talwrn.

5.2 Roedd Cylch Meithrin Talwrn yn dweud nad ydynt yn cefnogi'r opsiwn [i gau Ysgol Talwrn] ac roedd y Cylch yn gobeithio byddai'r Awdurdod yn "buddsoddi mewn ysgol newydd yn Talwrn." Gweler sylwadau'r Cylch yn Atodiad 2.

5.3 Barn swyddogion ac aelodau Capel Nyth Clyd, Y Talwrn oedd eu bod yn "unfrydol na ddylid cau'r ysgol". Roeddent yn teimlo fod yr ysgol yn sylfaen i'r Gymdeithas leol a hefyd yn cyfrannu'n eang iawn at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref". Gweler sylwadau'r swyddogion ac aelodau yn Atodiad 3.

5.4 Derbyniwyd llythyr gan Ysgrifennydd Capel Siloam, Talwrn (Capel Annibynwyr) oedd yn "mynegi gwrthwynebiad aelodau'r Capel i gau Ysgol Gynradd y Talwrn". Ei ddymuniad oedd i'r "ysgol aros yn agored i wasanaethu'r gymuned". Gweler sylwadau Ysgrifennydd Capel Annibynwyr Siloam yn Atodiad 4.

5.5 Derbyniwyd llythyr gan Arolygwr Ysgol Sul Siloam, Talwrn (Capel Annibynwyr) oedd yn "mynegi gwrthwynebiad athrawon, aelodau a rhieni aelodau'r Ysgol Sul i gau Ysgol Gynradd y Talwrn". Eu dymuniad oedd i'r "ysgol aros yn agored i wasanaethu'r gymuned". Gweler sylwadau Arolygwr Ysgol Sul yn Atodiad 5.

5.6 Roedd Pwyllgor Eisteddfod y Talwrn yn "gwrthwynebu cau Ysgol y Talwrn" ac roedd y Pwyllgor yn teimlo fod "yr ysgol yn gonglfaen i gymdeithas y pentref a'r ardal". Roeddent yn teimlo fod yr Eisteddfod " yn rhoi cyfle i feithrin hyder drwy berfformio ar lwyfan, sy'n sgil a fydd o gymorth i unigolion yn y dyfodol yn eu bywydau bob dydd". Barn y Pwyllgor oedd bod y "polisi o gau ysgolion gwledig yn gyfystyr a pholisi o ddifodiant ddiwylliannol a chymdeithasol". Petal Ysgol Gynradd y Talwrn yn cau, barn y Pwyllgor oedd na fyddai "unrhyw ddyfodol i Eisteddfod gadeiriol y Talwrn fel yn wir digwyddodd ym mhentref Llanddeusant". Gweler sylwadau'r Pwyllgor yn Atodiad 6.

5.7 Mewn llythyr byr gan Gangen y Talwrn o Ferched y Wawr, roedd yr Ysgrifennydd yn datgan gwrthwynebiad y Gangen i'r "bwriad o gau Ysgol y Talwrn". Roedd y Gangen yn dweud mai "dymuniad y gymuned a'r rhieni yw gweld yr ysgol yn parhau fel rhan ganolog o'r pentref a'r ardal". Gweler sylwadau Ysgrifennydd y Gangen yn Atodiad 7.

5.8 Roedd y staff o'r farn fod Ysgol Talwrn yn "ganolfan allweddol ar gyfer gwasanaethu plant yr ardal leol yn ogystal â'r gymuned ehangach". Roeddent o'r farn mai un "fantais allweddol i ysgol fechan yw'r elfen deuluol sy'n tanlinellu pwysigrwydd pob unigolyn o fewn yr ysgol". Teimlad y staff oedd bod lleoliad yr ysgol "yn ddelfrydol ar gyfer astudiaethau" lleol a'i bod mewn "man diogel delfrydol". Yn ôl y staff, mae "cyfraniad yr ysgol ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn allweddol ar gyfer cadw'r Esiteddfod [y pentref] yn fyw". Yn eu tyb hwy, byddai "cau'r ysgol yn tramgwyddo dyfodol yr iaith yn y gymuned leol a thu hwnt". Gweler sylwadau'r staff yn Atodiad 8.

5.9 Ymateb Cyngor Cymuned Llanddyfnan oedd eu bod "o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar

gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion cynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol". Gweler sylwadau'r Cyngor Cymuned yn Atodiad 9.

5.10 Mewn llythyrau personol, dywedodd aelodau o Gorff Llywodraethol Ysgol Talwrn eu bod yn teimlo mai "penderfyniad swyddogion yw cau'r ysgol" ac "nad oes troi ar y penderfyniad". Crybwyllwyd pwysigrwydd yr Eisteddfod leol i'r pentref a'r gymuned gan y Llywodraethwyr ac roeddent yn herio'r ffigurau ôl-groniad cynnal a chadw a cost cael caban newydd i'r ysgol.

5.11 Derbyniwyd ymateb ar e-bost gan Bwyllgor Neuadd Bentref Y Talwrn oedd yn datgan: "Ar ran Pwyllgor y Neuadd Bentref, dymunwn ddatgan ein siom fod yr ysgol yn cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad yn y lle cyntaf.
Mae'r neuadd yn cydweithio ag Ysgol Y Talwrn ers blynyddoedd, ac mae'r Neuadd yn ddibynnol ar gefnogaeth gan ddisgyblion a rhieni'r ysgol i gefnogi gweithgareddau codi arian a chynhelir yn rheolaidd tuag at gostau cynnal a chadw hanfodol.
Yn ogystal, buasai nifer fawr o gymdeithasau megis y Cylch Meithrin, Grŵp Rhiant a Phlentyn, Geidiaid sydd yn cyfarfod yn y Neuadd yn dioddef o'r herwydd."

5.12 Cyn cyfarfod o'r Cyngor Llawn y mis Rhagfyr 2017, cyflwynwyd deiseb i Arweinydd y Cyngor. Roedd y rhai oedd wedi llofnodi'r ddeiseb yn:

- Teimlo byddai "unrhyw fygythiad o gau Ysgol Talwrn yn mynd i gael canlyniadau difrifol" ar y pentref a'r gymuned.
- Gofyn bod "pryderon y llofnodwyr yn cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Gwaith yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Annog y Cyngor i beidio a chau Ysgol Talwrn ond i fuddsoddi ynddi.

Arwyddwyd y ddeiseb gan 801 o lofnodwyr.

5.13 Teimlai 89 o'r ymatebwyr (82%) oedd bod Ysgol Talwrn yn "ysgol fach cefn gwlad" ac felly'n "holl bwysig i'r gymuned ac i'r ffordd Gymreig a'r iaith Gymraeg" ac y byddai cau Ysgol Talwrn yn "lladd y gymuned" a bod yr ysgol yn cynnal y ffordd draddodiadol Gymreig o fyw ac yn "galon " ac "asgwrn cefn" y gymuned.

5.14 Canmolwyd safon yr addysg yn Ysgol Talwrn gan 80 (74%) o randdeiliaid ac roedd 53 ohonynt (49%) yn crybwyll y ffigurau yn y ddogfen ymgynghori oedd "yn well ar gyfer Ysgol Talwrn nag Ysgol y Graig" ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Roeddent hefyd yn teimlo fod yr addysg sy'n cael ei ddarparu gan yr ysgol yn "datblygu'r plant yn dda".

5.15 Barn 56 (52%) o ymatebwyr oedd bod y costau yn y ddogfen yn amheus a bod y ffigwr o £250,000 am gaban newydd yn afrealistig. Roeddent yn cwestiynu os fyddai benthyciad dros 50 mlynedd i gyllido adeilad newydd i'r Cyfnod Sylfaen yn "werth da am arian". Roedd eraill yn dweud gan fod Ysgol Talwrn yn llawn," nid oes angen i'w chau hi".

5.16 Roedd teithio posib i Ysgol Y Graig yn bryder a nodwyd gan 42 (39%) o randdeiliaid ac roeddent yn dweud fod y daith i gerdded Ysgol Y Graig yn beryglus.

5.17 Roedd 35 o'r ymatebwyr (32%) am i'r Awdurdod adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Talwrn tra roedd 12 o ymatebwyr (11%) yn meddwl dylai'r Awdurdod ystyried ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag ysgol gynradd arall.

5.18 Sefyllfa traffig yn Ysgol y Graig oedd yn poeni 24 (22%) o ymatebwyr.

5.19 Teimlai 20 o'r ymatebwyr (19%) fod y broses ymgynghori yn annheg.

5.20 Yr Eisteddfod leol fyddai'n dioddef petai Ysgol Talwrn yn cau yn ôl 19 o ymatebwyr (18%).

5.21 Effaith y broses ymgynghori ar staff yr ysgol oedd o bwys i 17 (16%) o ymatebwyr.

5.22 Crybwyllodd 9 ymatebydd (8%) ddatganiad diweddar (10 Tachwedd 2017) yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg ar ysgolion gwledig.
Er hynny, yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru, nid yw Ysgol Talwrn ar ei rhestr o ysgolion gwledig.

5.23 Cynigwyd syniadau amgen a phwyntiau eraill gan amrywiol randdeiliad sef:
- Defnyddio Ysgol Talwrn i hyfforddi penaethiaid
- Adeiladu ysgol gynradd newydd yn y Talwrn neu ei moderneiddio
- Nid oes sôn yn y ddogfen ymgynghori am effaith posib y cynllun ar allyriadau carbon nag ar effaith posib gwireddu'r cynnig dan sylw ar batrymau gwaith rhieni.
- Uno Ysgol Talwrn gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth.

## 6. YMATEBION O YSGOL Y GRAIG

6.1 Derbyniwyd ymateb gan 4 rhanddeiliad sef rhiant a 3 o Lywodraethwyr.

6.2 Yr hyn oedd yn poeni'r rhiant oedd y trefniadau parcio presennol nes eu nod yn "ofid" iddynt fel teulu. Profiad y rhiant oedd bod "ceir yn parcio ar linellau dwbl melyn ar ddiwedd dydd, ac ers i'r lôn newydd agor mae llefydd parcio yn fwy prin eto, a'r traffig yn yr ardal wedi cynyddu ymhellach. Mae'n sefyll i reswm bydd y sefyllfa yn gwaethygu eto pan gaiff tai eu codi yn yr ardal ac wrth i niferoedd yr ysgol godi". Yn ogystal roedd y rhiant yn :
- Gobeithio rhoddir ystyriaeth i recriwtio a chyflogi hebryngwyr/ dynion lolipop o ystyried nifer y plant a'r ceir sydd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.
- Awgrymu i swyddogion "ymweld a'r ysgol yn ystod amryw o adegau prysur er mwyn deall difrifoldeb y sefyllfa cyn ystyried adeiladu ymhellach ar safle'r ysgol".

Os bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen, roedd y rhiant yn meddwl dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:
- "Diystyru'r disgwyl bydd pobl sy'n byw o fewn pellter cerdded o'r ysgol yn cerdded" gan nad "yw hyn yn wir pan mae'r tywydd yn wael".
- "Y nifer o geir yn yr ardal ar nosweithiau prysur e.e. sioeau Nadolig neu mabolgampau pan mae dau riant yn dod o'u gwaith i weld eu plant, a'r angen am lefydd parcio digonol ar gyfer achlysuron tebyg".
- Yn ôl y rhiant, mae'r niferoedd sydd yn cael mynediad i'r maes parcio" yn cael eu rheoli gan y gofalwr" ond mae yntau'n "derbyn cwynion gan rieni/ gyrwyr tacsi oherwydd hyn". Roedd yn gobeithio "bydd ystyriaeth yn cael ei roi i staffio os oes angen adnoddau dynol i reoli'r traffig gan fod recriwtio cymorthyddion,

gofalwyr a glanhawyr yn ddigon heriol i ysgolion heb osod gofynion pellach arnynt. Annheg byddai disgwyl i'r ysgol gymryd cyfrifoldeb dros staffio'r sefyllfaoedd hyn".

6.3 Roedd y Llywodraethwyr yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid ac yn cefnogi'r cynnig dan sylw. Roeddent yn tynnu sylw at y pwyntiau canlynol:

1. "Bod angen mwy na dau ddosbarth i bob oed gan fod y dosbarthiadau presennol yn llawn".
2. "Bod angen cael neuadd yn y bloc newydd ar gyfer cinio ac addysg gorfforol".
3. "Angen i staff Cyfnod Sylfaen gael mewnbwn a llywodraethwr i gael mewnbwn i'r dyluniad"
4. "Gan fod yr ysgol mewn ardal ddifreintiedig", teimlad y llywodraethwyr oedd y dylid cael ystafelloedd ychwanegol ar gyfer plant sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn dosbarth prif lif".
5. Yr angen i "ddatrys problemau sydd eisoes yn bodoli e.e.'drainage' a'r tyrbin gwynt sydd ddim yn gweithio"
6. Angen "digon o ofod yn yr ystafelloedd dosbarth yn unol â safonau'r Ysgolion Unfed Ganrif Ar Hugain".
7. "Parcio a'r angen i gael ateb i'r sefyllfa barcio wrth Ysgol Y Graig."

## 7. YMATEBION ERAILL

7.1 Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan sef cyngor cymuned ar gyfer ardal Talwrn a'r cyffiniau. Ymateb Cyngor Cymuned Llanddyfnan oedd eu bod "o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion cynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol". Gweler sylwadau'r Cyngor Cymuned yn Atodiad 9.

**NODER** - Nid yw Ysgol Talwrn ar restr yr ysgolion gwledig gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

7.2 Yn ogystal â chwrdd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GWe;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuenctid yr Awdurdod;
- Ysgol Gyfun Llangefni.

7.3 Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.U.T. Roedd eu swyddog yn "gwerthfawrogi angen yr Awdurdod i foderneiddio'r ystâd ysgolion" ond yn "gresynu gyda'r angen am ddiswyddiadau gorfodol fel sy'n digwydd yn ad-drefniad Ysgol Santes Dwynwen".

## 8. ADBORTH GAN DDISGYBLION

Cyfarfu swyddogion y Cyngor gyda disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Y bwriad oedd i gynnal cyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o'r ddwy ysgol, er mwyn canfod eu barn am y cynnig i newid eu hysgol bresennol.

Eglurwyd i'r disgyblion fod ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r oedolion yn y gymuned, ac roedd hyn yn gyfle i'r plant o'r ysgolion fynegi eu barn am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw sy'n mynychu'r ysgolion. Dywedwyd wrthynt bydd y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael eu trosglwyddo i ffurf adroddiad a'i gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol.

Eglurwyd mai'r rhesymau dros foderneiddio oedd:

- Mae gan ysgolion Ynys Môn gormod o lefydd gwag neu dim digon o lefydd mewn rhai o'u hysgolion
- Angen gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael addysg dda
- Angen gwneud siŵr fod yr ysgol yn fodern ac yn cynnig offer da
- Bod y Cyngor yn gwario eu harian ar ysgolion mewn ffordd deg

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r plant:

Beth oedd y disgyblion yn hoffi am eu hysgol bresennol?
Beth yw eich barn am yr opsiwn o addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig
A oeddent yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid
Unrhyw sylwadau eraill
Mae'r ymatebion wedi eu cyflwyno isod.

**Ysgol Talwrn**

Holwyd y Cyngor Ysgol yn y lle cyntaf. Yna cafodd grŵp o blant o oedrannau gwahanol gyfle i ddod am sgwrs. Roedd rhieni'r plant hynny wedi mynegi diddordeb mewn cynnwys eu plant yn yr ymgynghoriad.

| **Cwestiwn:** Beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am eu hysgol bresennol? |
|---|
| ▪ Rydym yn cael lot o sylw yma.<br>▪ Mae'r ysgol efo byd natur o'i amgylch ac rydym yn dysgu am fyd natur.<br>▪ Rydym yn cael cyfle i gymryd rhan mewn Eisteddfodau gan fod yr ysgol yn llai.<br>▪ Rwy'n poeni am golli fy ffrindiau Mae pawb yn nabod ei gilydd yn yr ysgol yma ac yn gwybod enwau ei gilydd.<br>▪ Mae yna lot o gefnogaeth yn yr ysgol.<br>▪ Rwyf wedi bod yn Ysgol Y Graig ond mae gennyf ffrindiau da bellach yn Ysgol Talwrn. |

- Mae yna hen drên ar yr Iard  a dim y pethau modern rydym wedi arfer cael. Y pethau sydd gennym yn bresennol sydd wedi ein helpu i ddysgu.
- Mae tîm pêl droed yn yr ysgol ac mewn ysgol fwy dim ond y goreuon fydd yn cael eu dewis.
- Rydym yn mwynhau cymryd rhan.
- Rwy'n byw yn y pentref ac yn gallu cerdded i'r ysgol.
- Mae gennym draddodiad o gymdeithasu yn sgwâr y pentref ar ein ffordd adref.
- Mae'r Iaith Gymraeg yn dda yma a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg.
- Mae gwaith ni gyd yn cael eu harddangos ar y waliau. Mewn ysgol fwy dim ond gwaith y plant gorau sy'n cael mynd ar y waliau.
- Rydym yn gallu gweld ein ffrindiau i gyd ar yr Iard yn Talwrn ar amser chwarae.
- Mae gennym deganau da yma, Cromebook a thrên ar yr iard. Nid ydym eisiau gweld y rhain i gyd yn mynd i wastraff.
- Rwy'n hoffi dod i'r ysgol yma - rwy'n hapus yma. Rwy'n teimlo yn drist iawn bod yr ysgol yn cau.
- Mae fy nheulu wedi bod yn dod i'r ysgol yma ers blynyddoedd ac rwy'n byw yn Talwrn.
- Mae yna lot o ddewis o ran gweithgareddau yma.
- Rydym yn cael canu yn y côr yma. Mae gennym gyswllt da efo'r gymuned yma
- Mae athrawon da yma, sy'n neis ac yn edrych ar ein holau.
- Mae'r ysgol yma yn teimlo fel 'un teulu'.
- Mae aelodau o'r gymuned yn dod yma i wneud gweithgareddau efo ni. Nid ydym eisiau colli cyfleodd fel hyn. Mae un aelod yn cyfansoddi caneuon ar ein cyfer.
- Rwyf wedi bod mewn ysgol debyg i'r Graig, nid wyf yn hoffi lot o blant mewn ysgol achos mae'n anodd gwneud ffrindiau gorau.
- Mae'r ysgol yn hen ond rydym yn dysgu pethau newydd.
- Mae cyfle i ddysgu am fyd natur yma, ni fydd cyfle o'r fath yn y Graig.
- Yn hoff iawn o fynd i'r goedlan i gael stori.
- Rydym yn cael defnyddio beiciau ar yr Iard

| Beth yw eich barn am y cynnig addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig? |
|---|

- Yn poeni y byddaf rhy swil i wneud ffrindiau
- Bydd angen i mi ddysgu lle mae pethau yn cael eu cadw a lle mae dosbarthiadau. Mae hi mor hawdd mynd i'r dosbarth ar hyn o bryd
- Mae gan blant o'r babanod ffrindiau yn yr adran iau ar hyn o bryd. Rydym eisiau hyn barhau (sef y cyswllt rhwng y babanod a'r adran iau).
- Mae gennym ffrind yn yr ysgol sydd angen sylw ychwanegol. Rydym yn adnabod hi ac yn edrych ar  ei hol. Rydym yn poeni bydd plant Ysgol y Graig yn chwerthin am ei phen.
- Yn yr Eisteddfod a Chyngerdd Diolchgarwch mae pawb yn cael rhan. Ni fyddent yn cael cyfleoedd o'r fath wedyn
- Rwy'n poeni bydd y gwaith yn anodd yna, ac efallai i rai sy'n cael anawsterau yn barod
- Rwyf eisiau cadw'r ysgol yma yn agor ac yn dweud ei fod yn ysgol well.
- Mae Iard chwarae Ysgol y Graig yn fawr iawn a'r coridorau yn hir
- Mewn ysgol fawr efo lot o blant, bydd lot o ffraeo yn mynd ymlaen
- Nid wyf eisiau colli athrawon da

| A ydych yn cytuno efo'r rhesymau dros newid? |
|---|
| ▪ Rydym yn cytuno, ond rydym ni yn bwysicach a'n barn bersonol. |

| Sylwadau pellach |
|---|
| ▪ Mae hyn yn oll yn gwneud i mi boeni am fynd i Ysgol Gyfun yn ogystal<br>▪ Rwyf eisiau cadw Talwrn ar agor<br>▪ Bysa diwrnod arbrofol yn y Graig yn dda<br>▪ Beth am gludiant - sut fyddwn yn teithio i'r ysgol? |

**Ysgol y Graig**
Dewiswyd cynrychiolaeth blynyddoedd 5 a 6 o'r cyngor ysgol, sef cyfanswm o 6 o blant.

| **Cwestiwn:** Beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am eu hysgol bresennol? |
|---|
| ▪ Lot o ffrindiau, ac rydym yn teimlo fel un teulu<br>▪ Mae digon o le yn yr ysgol<br>▪ Athrawon da a theg<br>▪ Ysgol liwgar a mawr<br>▪ Edrych yn newydd sbon a glan<br>▪ Mae'n hwyl<br>▪ Mae yna ddigon o weithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal<br>▪ Mae yna lot o bobl yma i helpu athrawon |

| **Cwestiwn** Beth yw eich barn am y cynnig addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig? |
|---|
| ▪ Yn edrych ymlaen at wneud ffrindiau newydd<br>▪ Oes rhaid i blant Talwrn ddewis Ysgol y Graig. Gwawn helpu nhw os maen nhw'n teimlo yn drist yma<br>Bydd yna fwy o blant i gymryd rhan yn y gweithgareddau pêl droed efo ni.<br>▪ Mae'n syniad da<br>▪ Nid ydym eisiau'r adeilad newydd fod yn rhy bell oddi wrth yr adeilad presennol ac mae'n bwysig cael cysylltiad agos rhwng y 2.<br>▪ Bydd plant Ysgol Talwrn angen cyfleoedd i ddod yn gyfarwydd â'n hysgol ni<br>▪ Bydd angen clwb brecwast yn y 2 adeilad, a dim disgwyliad i blant groesi drosodd rhwng y 2 adeilad ar ôl y clwb brecwast<br>▪ Rydym yn meddwl am deimladau plant Talwrn. Gallent golli ffrindiau os mae eu rhieni yn dewis i'w plant fynd i ysgol arall yn hytrach nag ysgol y Graig<br>▪ Yn cytuno gyda'r cynnig |


Nid oedd ganddynt unrhyw sylw pellach i'w cynnig.

**Casgliad**
Cafwyd trafodaethau aeddfed iawn yn y ddwy ysgol. Mynegwyd pryderon amlwg gan blant Ysgol Talwrn. Gyda rhai yn gofyn i'r cyngor ystyried peidio â chau Ysgol Talwrn. Roedd Ysgol y Graig yn cytuno gyda'r cynnig. Mae'r ddwy ysgol wedi gofyn i'r cyngor ystyried rhai ffactorau wrth symud ymlaen efo'u cynlluniau:

- Cadw'r cysylltiad â'r berthynas rhwng yr adeilad ar gyfer y babanod a'r adran iau
- Peidio adeiladu'r adeilad newydd yn rhy bell o'r adeilad presennol
- Trefnu diwrnodau arbrofol yn Ysgol y Graig
- Cadarnhad o drefniadau cludiant
- Ystyried cynnal clwb brecwast yn y 2 adeilad.

Gofynnwyd i'r 2 ysgol nodi eu teimladau am y cynnig o foderneiddio eu hysgolion a dyma a nodwyd:

**Ysgol Talwrn**



**Ysgol y Graig**




## 9. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Cafodd pob un o'r naw opsiwn gwreiddiol yn yr adroddiad ar y ddogfen ymgynghori anstatudol eu gwerthuso o safbwynt ariannol. Cafodd y canlynol eu hystyried ar gyfer pob opsiwn - costau cyfalaf, arbedion refeniw, costau cludiant, derbyniadau cyfalaf a chostau benthyca wedi cael eu hystyried ar gyfer pob opsiwn.

Rhaid nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer y cyfrifiadau hyn. Bydd benthyca:

- ar gyfradd sefydlog.
- yn digwydd dros gyfnod o 50 mlynedd gan ddefnyddio'r cyfraddau llog diweddaraf.
- yn cael ei gymryd yn ei gyfanrwydd h.y. ar un tro gan nad yw'r gwariant / dyddiad proffilio ar gael. Yn syml, cost ariannu'r swm hwnnw am 50 mlynedd yw'r cyfrifiad hwn.

Dim ond yr elfen benthyca digefnogaeth y rhaglen ysgolion 21ain ganrif mae'r cyfrifiadau hyn yn eu hystyried.

Dylid nodi mai *amcangyfrifon gorau* yw'r costau a'r arbedion sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd nifer o'r opsiynau, os y'u gwireddir, yn creu costau byr dymor megis, apwyntio pennaeth cyn i'r ysgol agor, costau diswyddo, costau amddiffyn tâl, a chostau cynnal adeiladau tan fyddent yn cael ei gwerthu. Mi fydd y costau yma yn rhan o achos busnes, pe gwireddir yr opsiwn, pan fydd nifer yr opsiynau wedi eu cwtogi.

Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo ymgynghori ar opsiwn 7, dim ond yr opsiwn hwnnw gaiff ei ystyried:

**Cynnig: Ehangu Ysgol y Graig**

| Cost cyfalaf | Arbedion refeniw net | Costau cludiant | Derbynion cyfalaf |
|---|---|---|---|
| £4,840,660 | £53,216 | £28,000 | £140,000 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Costau ychwanegol | £28,000 | Cost net y prosiect | £4,700,660 |
| | | Cost i'w gyllido | £2,280,330 |

Mae'r arbedion net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £53,216 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £2,280,330. Byddai costau blynyddol hyn tua £103,073.

## 10. ARGYMHELLIAD

O ystyried y ffactorau uchod, cytunodd y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017 gydag argymhelliad swyddogion sef bod angen:

- **"ymgynghori ymhellach ar yr opsiwn o addasu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn"**

Felly, ar ôl yr ymgynghori pellach, yn hytrach nag ymestyn Ysgol y Graig, cynigir:

1. Defnyddio adeilad presennol Ysgol Y Graig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu
2. Cael bloc neu adeilad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
3. Cau Ysgol Talwrn ac adleoli'r disgyblion i Ysgol Y Graig ar ôl i'r adeilad newydd i'r Cyfnod Sylfaen agor ac ar ôl i'r adeilad presennol gael ei addasu
4. Ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn y ddarpariaeth newydd
5. Sicrhau fod y tyrbin gwynt ar y safle yn gweithio erbyn diwrnod agor yr adeilad newydd

Byddai'r adeilad newydd yn rhan o Ysgol Y Graig a ni fyddai'n endid ar wahân.

**Atodiad 1**

## Ysgolion Cynradd yr Unfed Ganrif ar Hugain

Mae'n debygol bydd unrhyw ysgol newydd yn Ysgol Gynradd yn yr Unfed Ganrif. Mae Cyngor Môn yn ystyried Ysgol Gynradd yn yr Unfed Ganrif ar Hugain fel un sy'n gallu darparu'r canlynol:

### Cyfleusterau Addysgu a Dysgu

Mannau addysgu addas sy'n cynnwys digon o:

- Ystafelloedd dosbarth sydd o faint addas gydag ymdeimlad o ofod a golau (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Cyfleusterau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys ardaloedd tu allan (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Mannau ymarferol arbenigol, gan gynnwys ardal ar gyfer gweithgareddau technoleg a chelfyddydol
- Offer Tegwch modern
- Cyfleusterau storio digonol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Mynediad i ystafell adnoddau dysgu (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Ystafelloedd llai ar gyfer grwpiau llai e.e. targedu ac A.A.A.
- Man dysgu yn yr awyr agored ar dir yr ysgol
- Neuadd ysgol a chyfleusterau ciniawa ac o faint priodol. (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu). Gan ddibynnu ar faint yr ysgol, gall hyn fod yn neuadd ysgol defnydd deuol. Efallai y bydd angen lloriau sbring ar gyfer neuaddau ysgol defnydd deuol. Byddai angen storfa bwrpasol i'r byrddau bwyta.

### Cyfleusterau Cymunedol

Yn gallu darparu ystod o wasanaethau yn y gymuned yn ystod oriau ysgol, naill ai trwy ardaloedd a rennir neu ardaloedd pwrpasol. Dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnydd cymunedol eang gan gadw diogelu plant yn flaenoriaeth.

### Cyfleusterau Chwarae

- Ardal laswelltog breifat a diogel o faint digonol ar dir yr ysgol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Man chwarae caled (iard ysgol) o faint digonol ar gyfer capasiti'r ysgol
  (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)

### Ardaloedd Staff a Gweinyddu

- Ystafell(oedd) athrawon
- toiledau ar wahân i staff
- ardal waith i staff (CPA)
- swyddfa'r Pennaeth
- swyddfa Ysgrifennydd / Weinyddol
- ystafell Archwiliadau Meddygol neu Ystafell ar gyfer cleifion
- ystafell Adnoddau / llungopïo
- ystafell gyfweld

- **Atodiad 1**

**Cyffredinol**

- Adeiladau ysgol mewn cyflwr ardderchog ac yn cael eu cadw ar y lefel hon.
- Sicrhau bod mynediad ar gael i bobl anabl i'r ystod lawn o gyfleusterau
- Adeilad(au) diogel:
    - Sydd â derbynfa gydag arwyddion i ddynodi ei lleoliad
    - Y gellir eu cloi yn ystod y dydd gyda mynediad i ardaloedd a ddefnyddir gan blant trwy un pwynt mynediad a reolir
    - Gyda ffens ddiogel o gwmpas y safle ond sy'n caniatáu mynediad cyhoeddus i gaeau chwarae y tu allan i oriau ysgol a system larwm lladron
    - Gyda llecyn wedi ei ffensio/amgáu ar gyfer gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen
    - Gyda chamerâu goruchwylio - mewnol ac allanol
    - Yn cyrraedd safonau rheoliadau adeiladu sy'n gyfredol ar adeg adeiladu'r ysgol
    - Gyda systemau canfod tân a systemau chwistrellu
    - Sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) fel bod yr holl adeilad yn hygyrch i bawb.
    - Mynediad ar wahân i gerbydau a cherddwyr
    - Man troi / 'gollwng' ar gyfer bysus (lle bo'n briodol)
    - Llecyn diogel i gadw beiciau
    - Llefydd parcio digonol ble mae hynny'n bosib
    - Ni fydd unrhyw ystafelloedd dosbarth symudol neu leoedd dysgu dros dro yn rhan o ysgol newydd
    - Bod nifer briodol o ystafelloedd ymolchi / toiledau / ystafelloedd cotiau ar gyfer disgyblion
    - Dylid cynnwys y dechnoleg adnewyddadwy lle'n briodol e.e. tyrbinau gwynt, paneli solar/ffotofoltaïg, cyfleusterau ailgylchu, pympiau gwres daear a / neu fwyleri tanwydd pren i sicrhau y cydymffurfir â safonau BREEAM er mwyn lleihau ôl-troed carbon.
    - Dylai pob cyfeiriad at safonau maint / gofod gydymffurfio â'r canllawiau arwynebedd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sydd yn y Bwletinau Adeiladu priodol.

**Atodiad 2**

Cylch Meithrin Talwrn
Talwrn,
Llangefni

Annwyl [redacted],

Yr wyf yn Arweinydd ar Cylch Meithrin Talwrn ac ysgrifennaf atoch ar ran rhieni a plant y Cylch.

Mae sawl sgwrs wedi bod yn mynegi pryder am ddyfodol addysg plant y Cylch a siom a'r cynllun / bwriad sydd wedi gynnig yn Opsiwn 7 – Dyfodol Ysgolion Ardal Llangefni.

Nid ydym ym cefnogi'r opsiwn yma a gobeithio byddwch yn dwyn sylw ar ein barn a buddsoddi mewn ysgol newydd yn Talwrn.

Yn gywir,

Cylch Meithrin Talwrn.

**Atodiad 3**

# CAPEL MC NYTH CLYD
# Y TALWRN

5ed Tachwedd 2017

[redacted]

Annwyl [redacted]

Fel swyddogion ac aelodau Capel Nyth Clyd, Y Talwrn, rydym yn unfrydol na ddylid cau yr ysgol. Mae'r ysgol yn sylfaen i'r gymdeithas leol a hefyd yn cyfrannu'n eang lawn at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref.

Yn flynyddol, mae'r plant yn cael y profiad o gynnal oedfa Diolchgarwch yn y Capel. Dyma ond un enghraifft o'r cyfle y maent yn ei gael i feithrin hyder a chyfrannu i fywyd y gymuned. Fe all llawer lawn heddiw ddiolch am y cyfleon y maent wedi ei gael mewn Capel ac ysgol wledig i feithrin hyder a chyfathrebu yn glir a phwrpasol.

Heb os, pe baech yn penderfynu cau'r ysgol yna, fe fyddech yn euog o wrthod cyfle i greu dinaswyr cyfrifol. Rhywbeth mae ein cymdeithas ei wir angen heddiw.

Rydym yn ymwybodol fod lefel addysg yr ysgol yn uchel lawn. Yn ôl y Ddogfen Ymgynghorol â gyflwynwyd gennych, y mae'n glir fod CA 2 Ysgol Y Talwrn yn uwch na Ysgol y Graig, Ynys Môn a Chymru. Ni allwn hefyd anwybyddu y gwaith ardderchog mae'r ysgol yn ei gyflawni parthed sicrhau dyfodol yr Iaith Gymraeg.

Y mae Ysgrifenydd Addysg Llywodraeth Cymru, Mrs Kirsty Williams, wedi cyhoeddi na ddylid cau ysgolion gwledig oni fod yna seiliau cadarn i hyn. Yn ein barn ni nid oes seiliau cadarn yn bodoli yma.

Hefyd y mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y cyfrifoldeb nad ydynt, tros y blynyddoedd, wedi dosrannu arian yn deg tuag at gynnal a chadw'r ysgol.

Trychineb fuasai cau yr ysgol a nacau y plant o'r addysg ragorol y mae staff Ysgol Y Talwrn yn

Yn gywir iawn

[redacted]

Swyddogion

Atodiad 4

# CAPEL ANNIBYNWYR SILOAM TALWRN

[redacted]

[redacted]
Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

12.11.2017

Annwyl [redacted]

Ysgrifennaf atoch ar ran Capel Siloam (A.) Talwrn i fynegi gwrthwynebiad aelodau'r Capel i gau Ysgol Gynradd y Talwrn.

Dymunwn weld yr Ysgol Gynradd y Talwrn yn aros yn agored i wasanaethu'r gymuned. Yma mae calon ein cymuned yn curo gryfaf. Cenedl heb iaith, cenedl heb galon ac mae cymuned heb ysgol yn gymuned heb blant ac heb ddyfodol.

Mae llawer o aelodau presennol y Capel yn gyn ddisgyblion o Ysgol y Talwrn ac wedi elwa'n fawr o'r profiad hwnnw, Maent yn gweld gwerth mewn cadw ysgol mewn pentref nid yn unig er mwyn addysg a datblygiad unigol plentyn ond hefyd er mwyn i'r plant gael eu gwreiddio'n ddwfn yn yr hyn sydd gan gymuned gyfan i gynnig iddynt.

Mae'n hiaith a'n traddodiadau yn bwysig iawn i ni a chredwn mai mewn ysgol fel un y Talwm y gellir trosglwyddo orau i'n plant. Yn ogystal â dysgu gwybodaeth sylfaenol i blant credwn fod gwerth mewn trosglwyddo gwybodaeth am werth pentref, cydnabod a chymdogion i blant er mwyn iddynt ddysgu parchu eraill yn eu cymuned.

Bu llwyddiant yr ysgol mewn sawl maes dros y blynyddoedd yn rhyfeddol. Mae'r ysgol hon yn gymuned glos sy'n cyfrannu cymaint i'r gymuned ehangach. Mae'n anodd dychmygu'r pentref hebddi. Byddai'n gymaint tlotach.

Mae dymuniad pentrefwyr a'r hyn mae'r trigolion yn ei gredu sydd orau i'w plant yn ystyriaeth bwysig tu hwnt. Peidiwch, os gwelwch yn dda, a chwithau'n gofalu am addysg a lles ein plant ag anwybyddu'r gri hon a ddaw o'r galon.

Yn gywir,

[redacted] Capel Siloam Talwrn

Atodiad 5

# YSGOL SUL SILOAM TALWRN

[redacted]

[redacted]
Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

Annwyl Reolwr Rhaglen

Ysgrifennaf atoch ar ran Ysgol Sul Capel Siloam (A.) Talwrn i fynegi gwrthwynebiad athrawon, aelodau a rhieni aelodau'r Ysgol Sui i gau Ysgol Gynradd y Talwm.

Dymunwn weld yr Ysgol Gynradd y Talwm yn aros yn agored i wasanaethu'r gymuned.

Bu cydweithio hapus rhwng yr Ysgol Sul a'r Ysgol ers blynyddoedd lawer, yn enwedig ar adegau fel diolchgarwch pan fydd yr Ysgol yn dod ar ofyn y Capel i gynnal gwasanaeth diolchgarwch yma. Yn yr un ffordd bydd yr Ysgol Sul yn elwa ar gael benthyg dillad ac ati gan yr Ysgol ar gyfer perfformio Drama'r Geni adeg y Nadolig

Bu cydweithio ar lefel ddyfnach yn ogystal gan fod yr Ysgol a'r Ysgol Sul yn atgyfnerthu gwerthoedd ei gilydd Heb yr ysgol yn y pentref go brin y byddai Ysgol Sul gennym. Byddai hyn yn golled fawr i'r ardal.

Mae'r ysgol fach hon yn cyfrannu cymaint i'r gymuned ehangach ac mae'n anodd lawn dychmygu'r pentref hebddi. Byddai enaid ein cymuned wedi'i rhwygo.

Mae dymuniad aelodau'r Ysgol Sui a rhieni'r plant yn ystyriaeth bwysig tu hwnt. Peidiwch, os gwelwch yn dda, a chwithau'n gofalu am addysg a Hes ein plant ag anwybyddu'r gri hon a ddaw or galon.

Yn gywir

[redacted] Ysgol Sul Siloam Talwm

[redacted]
Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes
Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys M6n LL77 7TW

Annwyl [redacted]

**Ymgynghoriad am ddyfodol Ysgol y Talwrn - ymateb Pwyllgor Eisteddfod y Talwrn**

Mae'n siŵr y cewch sawl llythyr yn gwrthwynebu cau Ysgol y Talwrn. Dyma un arall. Credwn fod yr ysgol yn gonglfaen i gymdeithas y pentref a'r ardal. Ni ellir ystyried yr ysgol mewn termau ariannol ac addysgol yn unig, er pwysiced rheini. Dylid edrych ar y darlun ehangach o ddirywiad sy wedi mynd rhagddo yn ein pentref! ers blynyddoedd bellach am sawl rheswm, gan gynnwys polisïau Llywodraethau yn Llundain a Chaerdydd.

Yn fyr, dywedwn yn gadarn fod Ysgol y Talwm yn cyflawni llawer iawn mwy na dysgu plant, er cystal mae'n gwneud hynny. Mae'n cyfrannu'n helaeth at fywyd cymdeithasol y pentref, gan dynnu pobl at ei gilydd er lles y gymuned. Mae'r cysylltiadau a wneir rhwng rhieni dros y blynyddoedd yn meithrin undod cymdeithasol. Gwêl y disgyblion y gwerth o gydweithio ar lefel ardal a chymuned.

Un enghraifft yn unig yw'r Eisteddfod o'r cydweithio hyn, ond mae'n egluro ethos cymuned hyfyw. O safbwynt yr Eisteddfod, mae cyfraniad y plant a'u teuluoedd at ei llwyddiant yn

greiddio!. Ac wrth gwrs mae'r Eisteddfod yn rhoi cyfle i feithrin hyder drwy berfformio ar lwyfan, sy'n sgil a fydd o gymorth i unigolion yn y dyfodol yn eu bywydau bob dydd. Felly

mae'r ysgol yn cyflawni llawer lawn mwy nag addysg ffurfiol yn unig, drwy yr ymwneud hwn rhwng y disgyblion a'r gymdeithas ehangach. Mae'r gymuned yn cyfrannu at addysg y plant yn ei ystyr lawn o greu dinasyddion da a chyfrifol. Go brin fod y cyfraniad hwn ar fantolen y Cyngor na Llywodraeth Cymru.

Mae polisi o gau ysgolion gwledig yn gyfystyr a pholisi o ddifodiant diwylliannol a chymdeithasol.

Gwaith y Cyngor a'i swyddogion yw amddiffyn cymunedau'r Ynys. Fel y gwyddoch, mae Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams, wedi cyhoeddi fod yna bellach ragdybiaeth na chaiff ysgolion gwledig eu cau.

Er gwybodaeth, dyma rai ffigurau am Eisteddfod y Talwm. Yn 2016 yng nghystadlaethau oedran Cynradd roedd 49 o unigolion o Ysgol Gynradd Y Talwrn yn cystadlu ar y llwyfan a dim ond 19 o'r tu allan. Roedd 8 grŵp o'r ysgol yn cystadlu a 0 o'r tu allan. Yn y gwaith llenyddol roedd 65 yn cystadlu o'r ysgol ac 1 o'r tu allan ac yn y gwaith Celf a Chrefft roedd 41 yn cystadlu a 2 o'r tu allan.

Yn 2017 yng nghystadlaethau oedran Cynradd roedd 43 o unigolion o Ysgol Gynradd Y Talwrn yn cystadlu ar y llwyfan a dim ond 12 o'r tu allan. Roedd 7 grŵp o'r ysgol yn cystadlu a 0 o'r tu allan. Yn y gwaith llenyddol roedd 41 yn cystadlu o'r ysgol a 0 o'r tu allan ac yn y gwaith Celf a Chrefft roedd 53 yn cystadlu a 0 o'r tu allan.

Credwn felly os na fydd Ysgol Gynradd Y Talwrn yn parhau i fod ar agor ni fydd unrhyw ddyfodol i Eisteddfod Gadeiriol Y Talwrn fel yn wir y digwyddodd ym mhentref Llanddeusant. Unwaith y ceuwyd yr Ysgol Gynradd yno daeth yr Eisteddfod i hen hefyd.

Yn gywir,

[redacted]

[redacted]

[redacted]

**Atodiad 7**

Ysgol Gynradd Y Talwrn,

Y Talwrn,

Llangefni,

Ynys Môn.

Tachwedd 7fed 2017.

Annwyl [redacted],

Ysgrifennwn atoch er mwyn mynegi pryder ynglŷn â chau Ysgol y Talwrn yn y dyfodol agos.

Mae'r ysgol yn ganolfan allweddol ar gyfer gwasanaethu plant yr ardal leol yn ogystal â'r gymuned ehangach. Ystyriwyd y strategaethau addysgol yn arbennig iawn yn yr Arolwg ddiwethaf, ac mae'r ysgol yn  parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Mae gan yr ysgol berthynas ragorol gyda'r gymuned, ac mae'n hyrwyddo agweddau pellgyrhaeddol mewn sawl maes cwricwlaidd.

Un fantais allweddol i ysgol fechan yw'r elfen deuluol sy'n tanlinellu pwysigrwydd pob unigolyn o fewn yr ysgol, a sut mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau profiadau personol drwy fod yn rhan anhepgor o dim chwaraeon neu aelod hanfodol o gôr. Ni fyddai cyfleon fel hyn yn digwydd ond i'r plant mwyaf talentog mewn ysgolion mawr.

Rhaid cofio fod yr ysgol wedi ei lleoli mewn ardal sydd yn ddelfrydol ar gyfer astudiaethau lleol, gan gynnwys bod o dafliad carreg i fannau astudio diddorol megis Coed y Plas, afon Rhyd y Ddime a chors Bodeilio, lle mae'r plant yn gallu mwynhau profiadau uniongyrchol, gan fewnoli gogoniant byd natur sydd ar drothwy'r ysgol.

**Atodiad 7**

Lleolir yr ysgol mewn man diogel delfrydol, lle mae pob plentyn yn cael profiadau a chyfleoedd i ffynnu'n hyderus mewn awyrgylch hapus a chyfeillgar. Mae'r ardal hefyd yn frith o dalentau lleol, gan gynnwys cyfraniad Mrs E Olwen Jones, sydd wedi cyfansoddi cist o drysorau cerddorol, gyda phlant yr ysgol leol yn ei sbarduno ac yn cynnig cyfleoedd i'r gyfansoddwraig gynhyrchu cerddoriaeth ar gyfer plant

Cymru gyfan. Mae cynnyrch y gyfansoddwraig hefyd yn seiliedig ar hanes lleol, ac yn ffynhonnell arbennig ar gyfer creu archif o ddigwyddiadau lleol ar gân i'r dyfodol. Wrth gwrs, mae cyfleon perfformio'r caneuon, sydd wedi eu cyfansoddi'n arbennig ar gyfer yr Eisteddfod leol, yn creu partneriaeth glos rhwng yr ysgol, y gymuned a chelfyddyd. Mae hyn yn cyd-fynd yn naturiol gyda blaenoriaeth Llywodraeth Cymru parthed Cwricwlwm Cymreig.

Dylid hefyd bwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth Ysgol y Talwrn i'r Eisteddfod leol a gynhelir yn flynyddol yn y pentref. Mae cyfraniad yr ysgol ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn allweddol ar gyfer cadw'r Eisteddfod honno'n fyw, ac ni ddylid diystyrru pwysigrwydd eisteddfodau lleol sy'n hyrwyddo diwylliant ac nid lleiaf cadw'r iaith Gymraeg yn ffyniannus.  Byddai cau'r ysgol yn tramgwyddo dyfodol yr iaith yn y gymuned leol a thu hwnt.

Hawl rhiant yw cael dewis y sefydliad gorau i'w plentyn, boed yn ysgol fawr neu ysgol fach o ran maint. Unwaith mae ysgolion bychain yn diflannu, bydd rhieni yn cael eu hamddifadu o'r dewis hanfodol bwysig yma. Mae adborth gan rieni yn ategu hyn. Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori fod 49% o blant all ddalgylch yn mynychu'r ysgol. Dewis y teulu yw hyn yn y rhan fwyaf o achosion. Onid yw hyn yn brawf pendant fod darpariaeth ysgol fechan yn gweddu yn well i'w hanghenion?

Taer erfynnwn arnoch i ystyried yn fanwl oblygiadau cau drws yr ysgol arbennig hon.

Yn gywir iawn,

Staff Ysgol Y Talwrn.

Atodiad 8

# Merched y Wawr y Talwrn

[redacted]

[redacted]

07 Tachwedd, 2017

[redacted]

Swyddfeydd Cyngor Môn
Llangefni
LL77 7TW

Annwyl [redacted]

Y DDOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL - ARDAL LLANGEFNI

Ar ran Cangen y Talwrn o Ferched y Wawr ysgrifennaf i wrthwynebu'r bwriad o gau Ysgol y Talwm. Dymuniad y gymuned ar rhieni yw gweld yr ysgol yn parhau fel rhan ganolog o'r pentref a'r ardal.

Yn gywir

[redacted] Cangen y Talwrn

**Atodiad 9**

Sylwadau Cyngor Cymuned Llanddyfnan:

Mae'r Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi y barn lleol i peidio cau yr Ysgol. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, a wedi bod efo 42 - 49 o ddisgyblion drost y blynyddoedd diwethaf ac ysgolion gynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol.
Mae tua 100 o dai yn cael ei adeiladu yn Llangefni. A fydd lle i blant o'r eiddo hyn y Ysgol y Graig?

Clerc/Clerk
Cyngor Cymuned Llanddyfnan [redacted]